❖ Dywediadau a Throddodiadau y Nadolig

Yn draddodiadol, digwyddai'r plygain rhwng tri a chwech o'r gloch y bore. Byddai'r gwasanaethau yn dechrau mewn tywyllwch ac yn gorffen yng ngolau dydd.

Ar noswyl y Nadolig, cyn gwasanaeth y Plygain, byddai'r gymdeithas yn dod at ei gilydd i wneud cyflaith a hynny'n cael ei wneud fel arfer ar garreg yr aelwyd.

Fel y byddai cyfnod y Nadolig yn dirwyn i ben ar 6 Ionawr, nos Ystwyll, byddai'r dryw bach yn cael ei ladd, ei addurno a'i roi mewn tŷ bychan. Yna byddai criw o ddynion yn mynd ag ef o dŷ i dŷ a byddai'r trigolion yn rhoi arian iddynt am gael cipolwg ar yr aderyn bach.

Arferiad hynod o boblogaidd dros y Nadolig yw'r Fari Lwyd. Mae gwreiddiau'r arferiad hwn yn mynd â ni'n ôl i'r cyfnod cyn-Gristnogol. Penglog ceffyl wedi'i orchuddio â lliain a rhubanau oedd y Fari Lwyd. Byddai'r penglog yn cael ei roi ar bolyn fel bod modd i'r person oedd o dan y lliain agor a chau genau'r penglog. Byddai criw o ddynion yn mynd o gwmpas y tai yn gofyn am wahoddiad i'r tŷ i ddiddanu ac i gael bwyd a diod yn gyfnewid am hynny. Byddai'n anlwcus gwrthod y Fari Lwyd.

Gŵyl Sant Steffan yw'r enw ar y diwrnod ar ôl y Nadolig. Yn ôl Llyfr yr Actau Steffan oedd y merthyr cyntaf.